Briff Ymchwil

# Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd

**Awdur:** Nigel Barwise

**Dyddiad:** 6 Tachwedd 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Nigel Barwise**
Dyddiad: **6 Tachwedd 2017**
Rhif Papur: **17-031**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6315**
: **Nigel.Barwsie@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ..... 1
2. **Datblygiadau yng Nghymru** ..... 1
   - Cynulliad Cenedlaethol Cymru ..... 1
   - Llywodraeth Cymru ..... 2
   - Newyddion ..... 2
3. **Datblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd** ..... 3
   - Y Cyngor Ewropeaidd ..... 3
   - Y Comisiwn Ewropeaidd ..... 3
   - Senedd Ewrop ..... 4
   - Newyddion ..... 4
4. **Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig** ..... 4
   - Llywodraeth y Deyrnas Unedig ..... 4
   - Tŷ'r Cyffredin ..... 5
   - Tŷ'r Arglwyddi ..... 7
   - Newyddion ..... 9
5. **Yr Alban** ..... 10
   - Senedd yr Alban ..... 10
   - Llywodraeth yr Alban ..... 10
6. **Gogledd Iwerddon** ..... 10
7. **Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon** ..... 10
8. **Adroddiadau a gyhoeddwyd** ..... 11

# 1. Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy’n berthnasol i Gymru o ran ymadael â’r Undeb Ewropeaidd. Mae’n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; yr Undeb Ewropeaidd; y Deyrnas Unedig; yr Alban ac Iwerddon. Y cyfnod a gwmpesir yw rhwng 11 a 31 Hydref, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle’r oedd rhagor o wybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

# 2. Datblygiadau yng Nghymru

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau cysylltiedig â Brexit y Pwyllgorau.*

Dyma sesiynau diweddaraf y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol:

- 16 Hydref: Ymweliad y Pwyllgor â Brwsel. Cyfarfu'r Pwyllgor â Phrif Drafodwr yr Undeb Ewropeaidd, Michel Barnier, i ddweud wrtho am waith y pwyllgor ar asesu'r goblygiadau i Gymru wrth i’r Deyrnas Unedig dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd. Cyfarfu'r Pwyllgor hefyd â Katrina Williams, sef Dirprwy Gynrychiolydd Parhaol y Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd, cynrychiolwyr o Lydaw a Normandi, a Derek Vaughan, Kay Swinburne ac Ian Hudghton, yr Aelodau o Senedd Ewrop.
- 23 Hydref: **Gwydnwch a Pharodrwydd: Ymateb Gweinyddol ac Ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit - sesiynau tystiolaeth**. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Michael Trickey ar ran Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025, Dr Victoria Winkler o Sefydliad Bevan, CLILC a Chydffederasiwn GIG Cymru. **Trawsgrifiad**.

Ar **10 Hydref anfonodd y Pwyllgor lythyr at Aelodau Seneddol** yn amlinellu ei chwe amcan ar gyfer diwygio’r Bil Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y Pwyllgor y bydd ymateb y Senedd i'r chwe amcan yn effeithio'n sylweddol ar a yw'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn rhoi ei ganiatâd i'r Bil. Yn ogystal, **cyhoeddodd y Pwyllgor ddogfen yn nodi'r rhesymeg** dros ei amcanion.

Ar 11 Hydref cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar oblygiadau Brexit ar gyfer porthladdoedd Cymru.

13 Hydref: **Fforwm Rhyngseneddol ar y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd - datganiad**. Cyfarfu Cadeiryddion Pwyllgorau Cyfansoddiadol ac Ewropeaidd o bob rhan o ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig i ystyried materion yn ymwneud â Brexit. Cynrychiolwyd y Cynulliad gan David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Huw Irranca-Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ei hun ar **Pigion**. Y blogiau diweddaraf am Brexit yw: **Y trafodaethau rhwng yr UE a’r DU – y sefyllfa bresennol a’r camau nesaf**; **Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o’r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro – 18 Hydref 2017**; **Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion** , **Hawliau dynol, Brexit a Chymru.**

### Arall

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi ei adroddiadau ar **Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru**, a **Dyfodol Polisïau Amaethyddol a Datblygu Gwledig yng Nghymru**.

Mae'r Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ystyried y defnydd a wneir o gymorth gan yr Undeb Ewropeaidd ac effaith Brexit fel rhan o'i ymchwiliad i **Werthu Cymru i'r Byd**.

11 Hydref: **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Goblygiadau i Borthladdoedd Cymru o Adael yr Undeb Ewropeaidd**.

19 Hydref: Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried goblygiadau Brexit ar Hawliau Dynol fel rhan o'i ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru. Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth anffurfiol ar y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â Brexit a Hawliau Dynol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac arbenigwyr o Gomisiwn y Cynulliad.

24 Hydref: Datganiad y Prif Weinidog: **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drafodaethau Brexit**.

24 Hydref: Datganiad y Prif Weinidog: **Negodiadau Cydbwyllgor y Gweinidogion ar yr Undeb Ewropeaidd**

25 Hydref: **Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Ymweliadau â Brwsel a Helsinki**

## Llywodraeth Cymru

16 Hydref: **Y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn gyfle hanfodol i ailosod y berthynas gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig** – Mark Drakeford.

17 Hydref: **Mark Drakeford ym Mrwsel i gyfarfod â Guy Verhofstadt ASE**.

24 Hydref: **'Dim cytundeb' ddim yn opsiwn** –Carwyn Jones, y Prif Weinidog

25 Hydref: **Cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi hwb i ynni morol yng Nghymru**.

## Newyddion

16 Hydref: **Time for common sense to prevail over single market and customs union membership says FUW**.

17 Hydref: **Clear countryside vision vital post-Brexit** – Datganiad i'r wasg CLA ar dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

23 Hydref: **Welsh Government Plans for Agriculture Must Be Inclusive of Tenant Farmers**. Mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenantiaid yng Nghymru (TFA Cymru) wedi annog y dylai'r heriau penodol sy'n debygol o gael eu hwynebu gan y rhai sy'n rhentu tir fferm ar ôl Brexit gael sylw llawn.

23 Hydref: **NFU Cymru responds to EU Council conclusions on Brexit negotiations**.

24 Hydref: **Welsh processors and producers must work closer ahead of Brexit** (NFU Cymru)

25 Hydref: **Optimal Dairy Systems - is there a way to Brexit-proof your business?** (FUW)

26 Hydref: **Mae ymchwil newydd yn dangos bod rhaniadau dwfn yn parhau ynghylch Brexit** (Blog Brexit a Chymru Prifysgol Caerdydd)

27 Hydref: ‘Devastation’ across rural economy if migrant workers are shut out of UK (CLA)

# 3. Datblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd

## Y Cyngor Ewropeaidd

17 Hydref: Dogfennau gan y Llywydd Donald Tusk ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd: llythyr gwahoddiad, Agenda'r Arweinwyr ac Adroddiad gweithredu Bratislava.

18 Hydref: Datganiad i’r wasg ar y Uwchgynhadledd gymdeithasol tridarn. Sylwadau’r Llywydd, Donald Tusk, ar ôl yr uwchgynhadledd.

19-20 Hydref: Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ar y pynciau a ganlyn: mudo, Ewrop ddigidol, diogelwch ac amddiffyn, a chysylltiadau allanol. Sylwadau gan y Llywydd Donald Tusk yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd. Blog byw Politico o'r Cyngor Ewropeaidd. Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50). Sylwadau gan y Llywydd Donald Tusk ar gyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd ac Agenda'r Arweinwyr.

24 Hydref: Adroddiad gan y Llywydd Donald Tusk i Senedd Ewrop ar gyfarfodydd Cyngor Ewropeaidd mis Hydref a chyflwyniad o Agenda'r Arweinwyr.

25 Hydref: Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd 2018: Ni all y Cyngor dderbyn diwygiadau Senedd Ewrop.

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Cofnodion cyfarfod rhif 2220 y Comisiwn ar 12 Gorffennaf 2017 – tudalennau 16-24 ar drafodaethau Brexit.

11 Hydref: Llythyr ar y cyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Chynrychiolwyr Parhaol y Deyrnas Unedig i Sefydliad Masnach y Byd.

12 Hydref: Datganiad i'r wasg gan Michel Barnier yn dilyn pumed rownd y trafodaethau Erthygl 50 gyda’r Deyrnas Unedig.

16 Hydref: Datganiad ar y cyd gan y Llywydd Jean-Claude Juncker a'r Prif Weinidog Theresa May.

18 Hydref: Datganiad ar y Cyd yn dilyn yr Uwchgynhadledd Gymdeithasol Tridarn.

18 Hydref: Undeb Diogelwch: Sylwadau gan y Comisiynydd King yn y gynhadledd i’r wasg ar y pecyn gwrthderfysgaeth. Datganiad i’r Wasg, Cwestiynau ac atebion.

24 Hydref: Araith gan y Llywydd Juncker yn Sesiwn Lawn Senedd Ewrop ar Gasgliadau cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 19 a 20 Hydref 2017 a chyflwyno Agenda'r Arweinwyr.

24 Hydref: Cyflwyno Rhaglen Waith 2018 y Comisiwn i Senedd Ewrop gan y Prif Is-Lywydd Frans Timmermans. Cwestiynau ac atebion, datganiad i’r wasg.

26 Hydref: Cymorth gwladwriaethol: Y Comisiwn yn agor ymchwiliad manwl i gynllun treth y Deyrnas Unedig ar gyfer cwmnïau rhyngwladol.

### Senedd Ewrop

18 Hydref: Hyder y cyhoedd yn yr Undeb Ewropeaidd a'i Senedd yn parhau i dyfu ledled yr Undeb Ewropeaidd. Dros hanner pobl Prydain o'r farn bod y Deyrnas Unedig wedi elwa ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

25 Hydref: Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd 2018: mae angen rhagor o arian ar gyfer twf, swyddi, diogelwch a newid yn yr hinsawdd. Y Senedd yn gwrthdroi'r holl doriadau a gynigiwyd gan y Cyngor i gyllideb ddrafft 2018 yr Undeb Ewropeaidd.

26 Hydref: Y Senedd yn pennu canllawiau ar gyfer trafodaethau masnach gydag Awstralia a Seland Newydd.

### Newyddion

24 Hydref: Donald Tusk: EU must stay united or face Brexit 'defeat' (BBC)

23 Hydref: No Brexit transition period without final EU trade deal, Theresa May tells MPs (GRAUN)

24 Hydref: Michel Barnier: EU-UK trade deal could take 3 years (Politico, o'r cyhoeddiad (Fflemeg) De Tijd). Yn ogystal: Barnier plays down hope of 'special' UK deal (EUObserver)

27 Hydref: Sesiwn ar a allai Brexit sbarduno hawliadau buddsoddi? (Y Banc Ewropeaidd ar gyfer Ailadeiladu a Datblygu)

31 Hydref: Deialog y Dinasyddion yn Tallinn gyda'r Comisiynydd Günther H. Oettinger – yn cynnwys cyllideb yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

2 Tachwedd: 'Myfyrio ar Ewrop' yng Nghyfarfod Partneriaeth Datblygu Rhanbarthol Västernorrland (Pwyllgor y Rhanbarthau)

# 4. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig

### Llywodraeth y Deyrnas Unedig

10-26 Hydref: Galwadau ffôn / cyfarfodydd y Prif Weinidog gyda'r Arlywydd Trump, y Canghellor Merkel, y Taoiseach Varadkar, yr Arlywydd Macron, y Prif Weinidog Rajoy, y Prif Weinidog Gentiloni, y Prif Weinidog etholedig Jacinda Ardern o Seland Newydd, y Prif Weinidog Shinzo Abe o Japan, y Prif Weinidog Erna Solberg o Norwy

13 Hydref: Datganiad ar y cyd gan y Prif Weinidog Theresa May, y Canghellor Angela Merkel a'r Arlywydd Emmanuel Macron yn dilyn datganiad yr Arlywydd Trump ar Strategaeth Unol Daleithiau America ar Iran.

15 Hydref: Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Tramor drafodaethau gyda gweinidogion tramor 8 o gynghreiriaid Ewropeaidd.

16 Hydref: Datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog Theresa May a Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd Jean-Claude Juncker yn dilyn eu cinio gweithredol ym Mrwsel.

16 Hydref: Datganiad y Cydbwyllgor Gweinidogaethol (JMC) ar drafodaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd.

17 Hydref: Diweddariad David Davis i Dŷ'r Cyffredin ar drafodaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd.

19 Hydref: Llythyr agored y Prif Weinidog i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig.

20 Hydref: Datganiad i'r wasg y Prif Weinidog ar y Cyngor Ewropeaidd.

23 Hydref: Datganiad y Prif Weinidog ar Gyngor Ewropeaidd mis Hydref.

27 Hydref: Cafodd y cyn Aelod Cynulliad Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth ei benodi'n Is-ysgrifennydd Seneddol ar y cyd yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Swyddfa Cymru (ar ôl bod yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar y cyd yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Swyddfa Gogledd Iwerddon yn flaenorol).

27 Hydref: Datganiad ar y Datganiad Unochrog o Annibyniaeth a wnaed gan senedd ranbarthol Catalwnia.

27 Hydref: Mae Martin Callanan, Arglwydd Callanan, wedi cael ei benodi'n Weinidog Gwladol yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan gymryd lle Joyce Anelay, y Farwnes Anelay o St Johns.

30 Hydref: Theresa May yn cyfarfod Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn Downing Street.

## Tŷ'r Cyffredin

Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) - rhestr o ddiwygiadau hyd yn hyn.

12 Hydref: Cyfres o gwestiynau ar Fasnach Rhyngwladol.

12 Hydref: Trafodaeth ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Diogelu Data.

17 Hydref: Rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, David Davis, ddiweddariad i'r Tŷ ar gynnydd y pum rownd o drafod ers mis Mehefin, a chymerodd gwestiynau.

23 Hydref: Rhoddodd y Prif Weinidog ddatganiad ar gyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 19 Hydref, a chymerodd gwestiynau.

24 Hydref: Gohirio dadl ar pa mor barod yw'r Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

26 Hydref: Atebodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Union  gwestiynau ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Pleidlais Seneddol.

11 Hydref: Cynhaliodd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon Sesiwn Dystiolaeth ar y ffin ar y tir rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon.

11 Hydref: Bu'r Pwyllgor ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn holi cyfreithwyr ac academyddion am Brexit a Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

11 Hydref: Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: ymchwiliad craffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig – sesiwn dystiolaeth gyda'r cyn Atwrnai Cyffredinol Dominic Grieve AS, a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Gweithdrefnau.

11 Hydref: Holi Michael Russell, Aelod o Senedd yr Alban, ac academyddion ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) gan Bwyllgor Materion yr Alban. Trawsgrifiad.

12 Hydref: Cyhoeddodd y Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg lythyr gan Robin Walker AS am Brexit a chyngor gwyddonol.

12 Hydref: Lansiodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol ei **ymchwiliad i Ddatganoli ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

16 Hydref: **Lansiodd y Pwyllgor Masnach Ryngwladol ymchwiliad i'r berthynas fasnach rhwng y Deyrnas Unedig ac Unol Daleithiau America**.

17 Hydref: Clywodd y Pwyllgor Materion Cymreig dystiolaeth yn yr **ymchwiliad Brexit: amaeth, masnach ac ailwladoli pwerau**.

17 Hydref: Holodd y Pwyllgor ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd academyddion a chyfreithwyr am y **darpariaethau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ymwneud â datganoli**. Cafodd y Pwyllgor **lythyr gan Liam Fox AS at y Cadeirydd ynghylch Aelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd**.

18 Hydref: Trafododd y Pwyllgor ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd oblygiadau Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) o ran **rheoleiddio amgylcheddol a hawliau gweithwyr a defnyddwyr**.

18 Hydref: Holwyd Andrea Leadsom AS, Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, a Steve Baker, Gweinidog, ynghylch **Brexit a chraffu ar ddeddfwriaeth ddirpwyedig** gan y Pwyllgor Gweithdrefnau.

18 Hydref: **Ailddechreuodd y Pwyllgor Materion Cartref ei ymchwiliad i fewnfudo**.

18 Hydref: **Holwyd Gweinidogion am Brexit a chraffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig gan y Pwyllgor Gweithdrefnau**.

20 Hydref: Lansiodd Pwyllgor Materion yr Alban ymchwiliad, gan ofyn **a yw polisi mewnfudo'r Deyrnas Unedig yn cwrdd ag anghenion yr Alban?**

23 Hydref: Holodd y Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, David Davis, ynghylch cynnydd y trafodaethau Brexit

24 Hydref: Parhaodd y Pwyllgor Materion Cymreig â'i archwiliad o **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'i effaith ar amaethyddiaeth, masnach a datganoli yng Nghymru**.

24 Hydref: Holodd Pwyllgor Materion yn Alban yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Adfocad Cyffredinol am **waith Swyddfa'r Alban a'i rôl yn nhrafodaethau parhaus Brexit**.

25 Hydref: **Y Pwyllgor Masnach Ryngwladol yn archwilio'r cytundeb masnach rhwng y Deyrnas Unedig ac Unol Daleithiau America**.

25 Hydref: Holodd y Pwyllgor ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yr **Ysgrifennydd Gwladol am gynnydd y trafodaethau ar Brexit**.

25 Hydref: **Y diwydiant cemegau yn dal i wynebu ansicrwydd mawr ynghylch Brexit** – Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol.

25 Hydref: **Holwyd yr Wrthblaid Swyddogol am graffu ar ddeddfwriaeth ddirpwyedig a Brexit** gan y Pwyllgor Gweithdrefnau.

26 Hydref: Holodd y Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Steve Baker AS a Robin Walker AS am **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**.

26 Hydref: **Lansiwyd ymchwiliad Bombardier – dyfodol gweithgynhyrchu yn y maes awyrofod yng Ngogledd Iwerddon** gan Bwyllgor Materion Gogledd Iwerddon.

27 Hydref: Cyhoeddodd Pwyllgor y Trysorlys ei Adroddiad ar **Gyfarwyddeb Solfedd II — cynllun rheoleiddio yswiriant ledled yr Undeb Ewropeaidd wedi ei gydgordio**.

30 Hydref: **Clywodd y Pwyllgor Trafnidiaeth gan gynrychiolwyr cwmnïau awyrennau a meysydd awyr blaenllaw ar fargen bontio ar gyfer hawliau ehedeg**.

31 Hydref: Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Tramor sesiwn dystiolaeth i archwilio **dyfodol perthynas ddiplomyddol Prydain ag Ewrop**.

31 Hydref: **Meithrin consensws ar y polisi mewnfudo** – sesiwn dystiolaeth gan y Pwyllgor Materion Cartref.

31 Hydref: **Holodd y Pwyllgor Masnach Ryngwladol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol, Liam Fox**, am waith yr adran.

31 Hydref: Clywodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol gan **ddau o arbenigwyr academaidd mwyaf blaenllaw y Deyrnas Unedig ar gyfraith gyhoeddus fel rhan o'r ymchwiliad i Ddatganoli ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

1 Tachwedd: Archwiliodd Pwyllgor y Trysorlys **berthynas economaidd y Deyrnas Unedig gyda'r Undeb Ewropeaidd** gyda Syr Amyas Morse, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

1 Tachwedd: **Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon yn troi ei olygon at y Swistir a Norwy mewn ymchwiliad i ffiniau**.

1 Tachwedd: **Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Tramor sesiwn dystiolaeth gyda'r Gwir Anrhydeddus Boris Johnson AC**, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad.

1 Tachwedd: Holodd Pwyllgor y Cyfansoddiad **gyn Lywydd y Goruchaf Lys am y Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

1 Tachwedd: Cynhaliodd y Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sesiwn dystiolaeth ar Adael yr Undeb Ewropeaidd: goblygiadau i'r diwydiant niwclear. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi tystiolaeth gan **Gymdeithas y Diwydiant Niwclear** ac **EDF Energy**.

1 Tachwedd: Cynhaliodd y Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sesiwn dystiolaeth ar Brexit: Masnach mewn bwyd. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi tystiolaeth gan **Undeb Amaethwyr Cymru**, a llythyr a anfonwyd ar 12 Hydref **gan Michael Gove AS at y Cadeirydd ynghylch ymrwymiadau yn Sefydliad Masnach y Byd**, ac **ymateb y cadeirydd**.

## Tŷ'r Arglwyddi

11 Hydref: Cwestiynau ar **Brexit a myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd**.

11 Hydref: Cwestiynau ar **Brexit a Sefydliad Masnach y Byd**.

12 Hydref: Cwestiynau ar **Brexit: Setliad Ariannol**.

17 Hydref: **Y diweddaraf ar drafodaethau ynghylch ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**: Ailadroddwyd datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chwestiynau i ddilyn.

17 Hydref: Trafodwyd a nodwyd **Adroddiad Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd ar Brexit: Amaeth a Lles Anifeiliaid Fferm**.

18 Hydref: Cwestiynau ar **Brexit: y Diwydiannau Creadigol**.

19 Hydref: Trafodaeth ar **drefniadau pontio neu ddim bargen**.

23 Hydref: Ailadroddwyd datganiad y Prif Weinidog ar **y Cyngor Ewropeaidd**, gyda chwestiynau i ddilyn.

24 Hydref: Cwestiynau ar **Brexit: Gweinyddiaethau Datganoledig**.

25 Hydref: Ail ddarlleniad **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyaethau)**.

26 Hydref: Cwestiynau ar **yr Undeb Ewropeaidd: y Cytundeb Ymadael Terfynol**.

11 Hydref: Cymerodd Is-bwyllgor Materion Cartref y Deyrnas Unedig dystiolaeth ar **ofal iechyd dwyochrog ar ôl Brexit**.

12 Hydref: Cynhaliwyd y **ddeialog ryngseneddol gyntaf ar Brexit** yn Nhŷ'r Arglwyddi. Un arall a oedd yn bresennol oedd Robin Walker AS, Is-ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd **datganiad**.

12 Hydref: Cymerodd Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd dystiolaeth gan gyn swyddog sancsiynau yn y Comisiwn Ewropeaidd, fel rhan o'i ymchwiliad i **Brexit: polisi sancsiynau**.

12 Hydref: Cynhaliodd Is-bwyllgor Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sesiynau tystiolaeth ar ei ymchwiliad i **Brexit: cystadleuaeth**.

17 Hydref: Archwiliodd Is-bwyllgor Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd y Gweinidog ar **effaith Brexit ar amddiffyniad i ddefnyddwyr**.

17 Hydref: Clywodd Pwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd **dystiolaeth gan arbenigwyr academaidd, cyfreithiol a masnach ar gyfer yr ymchwiliad i Brexit: bargen ynteu dim bargen**.

17 Hydref: Cymerodd y Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg dystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i Wyddorau Bywyd a'r Strategaeth Ddiwydiannol, gan gynnwys cwestiynau ar yr **effaith bosibl y gallai'r rheoliadau gwahanol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ei chael ar ôl Brexit**.

18 Hydref: Clywodd Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd **dystiolaeth gan Swyddfa Ynni Ffederal y Swistir, ar gyfer yr ymchwiliad Brexit: diogelwch ynni**.

18 Hydref: **Mudwyr yn y Deyrnas Unedig a 27 gwlad arall yr Undeb Ewropeaidd yn trafod effaith Brexit ar ofal iechyd** gydag Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd.

19 Hydref: Cymerodd Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd **dystiolaeth gan gyn-bennaeth MI6, fel rhan o'i ymchwiliad, Brexit: polisi sancsiynau**.

19 Hydref: **Tystiolaeth gan TUC, Which?, ac ICA ar yr ymchwiliad Brexit: cystadleuaeth** ar gyfer Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr Undeb Ewropeaidd.

17 Hydref: **Clear countryside vision vital post-Brexit** – Datganiad i'r Wasg y CLA ar dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

24 Hydref: Rhoddodd **TheCityUK dystiolaeth ar ragolygon Brexit** i Bwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd.

25 Hydref: Holodd Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd y Gweinidog am **effaith Brexit ar ddiogelwch ynni**.

25 Hydref: Holwyd gweithwyr iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr yswiriant am **ofal iechyd dwyochrog ar ôl Brexit** gan Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd.

25 Hydref: 25 Hydref 2017, cymerodd Is-Bwyllgor Materion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd dystiolaeth gan **sector parti i gontract canolog (CCP) y Deyrnas Unedig, ynghylch Brexit**.

25 Hydref: **Cynnal yr wythfed Grŵp Cyswllt Brexit Anffurfiol**.

26 Hydref: **Mae'r Llywodraeth wedi ymateb i adroddiad** Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd ar Brexit dan y teitl 'EU data protection package'.

26 Hydref: Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd: Archwilio'r **polisi ar sancsiynau ar ôl Brexit** gyda Gweinidog yn y Swyddfa Dramor.

30 Hydref: Cafodd Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd **ymateb gan David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**, i'w adroddiad dan y teitl '**Brexit: trade in goods**'.

31 Hydref: **Rhoddodd David Davis a'r Arglwydd Darling dystiolaeth ar Brexit a "dim bargen"** i Bwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd.

31 Hydref: 31 Hyd 2017 – Llythyr gan Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd at yr Arglwydd Callanan ar **Drefniadau Tollau yn y Dyfodol - Papur ar Bartneriaeth yn y Dyfodol**.

31 Hydref: **Hawliau Dinasyddion ar ôl Brexit** wedi eu harchwilio yn ymchwiliad dilynol Is-bwyllgor Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

1 Tachwedd: Cynhaliodd Is-bwyllgor Materion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd sesiwn dystiolaeth ar reoleiddio a goruchwylio ariannol yn dilyn Brexit gyda thystion o Fanc Lloegr.

1 Tachwedd: Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd: **Wynebodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd gwestiynau ar effaith Brexit**.

1 Tachwedd: **Cymerodd Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd dystiolaeth ar ofal iechyd dwyochrog ar ôl Brexit** gan Kidney Care UK a Diabetes UK.

2 Tachwedd: Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr Undeb Ewropeaidd: **Y Gweinidog dros Fusnesau Bach yn rhoi tystiolaeth i ymchwiliad Brexit: cystadleuaeth**.

## Newyddion

16 Hydref: Gallai senario waethaf bosibl Brexit gostio £500 miliwn y flwyddyn i'r GIG (NHS)

17 Hydref: '**United Kingdom: Maintain close ties with EU to meet challenges of Brexit**'. (OECD)

26 Hydref: '**Reciprocal Healthcare failure a threat to NHS**' (BMA)

2 Tachwedd: Seminar Amser Cinio'r Swyddfa Economeg Iechyd:' **The Biotech Sector and a Brexit**: Past Performance and Future Prospects'.

2 Tachwedd: **Being young in Brexit Britain** – Y Sefydliad Ewropeaidd a Chanolfan UCL at gyfer Ieuenctid y Byd.

# 5. Yr Alban

## Senedd yr Alban

Diweddariad Senedd yr Alban ar Brexit: **25 Hydref**.

13 Hydref: **Pwyllgorau Seneddol yn cymryd rhan mewn deialog ryngseneddol ar Brexit yn San Steffan**.

25 Hydref: Trafododd y cyfarfod llawn **Arian Cydgyfeiriant Polisi Amaethyddol Cyffredin**, **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Trafodaethau)** a **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Effaith at Gerddorion a'r Diwydiannau Cerddoriaeth)**.

## Llywodraeth yr Alban

12-13 Hydref: Y Prif Weinidog yng **Nghynulliad Cylch yr Arctig yng Ngwlad yr Iâ** i feithrin cysylltiadau â chymdogion tua'r gogledd. **Yr Alban a'r gogledd newydd**.

12 Hydref: **Ystadegau masnach ranbarthol** – Mae 47% o allforion yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd.

16 Hydref: **Datganiad gan y Cydbwyllgor Gweinidogol (Trafodaethau Ewropeaidd) ar egwyddorion cyffredinol y Fframweithiau Cyffredin**.

16 Hydref: **Cyfarfod cynnydd Brexit** – Cymeradwywyd egwyddorion, ond ni chytunwyd ar faterion ynghylch ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

18 Hydref: '**Trade links with Canada must be protected after Brexit**'.

25 Hydref: '**Hill farmers fleeced**'. Mae ffermwyr mynydd yr Alban yn disgwyl am oddeutu £160 miliwn o arian Polisi Amaethyddol Cyffredin y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi methu â'i ddychwelyd i'r Alban.

25 Hydref: **Y Senedd yn gwrthod "Brexit dim bargen"**.

26 Hydref: **Ffigurau poblogaeth**. Rhagamcanion yn dangos effaith cwymp mudo'r Undeb Ewropeaidd.

27 Hydref: **Llythyr y Prif Weinidog at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**. Gofyn am eglurhad ar frys o drefniadau pontio.

# 6. Gogledd Iwerddon

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi dogfen dan y teitl **EU Matters: BREXIT Negotiation Focus**, sy'n cynnwys crynodeb o safbwyntiau negodi llywodraeth y Deyrnas Unedig, y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop.

# 7. Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

18 Hydref: **Y Taoiseach yn teithio i'r Cyngor Ewropeaidd ym Mrwsel**.

18 Hydref: Dadl yn y Dáil: **Cyn y Cyngor Ewropeaidd: Datganiadau**.

# 8. Adroddiadau a gyhoeddwyd

### Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

Brexit timeline: events leading to the UK's exit from the European Union.

Brexit: the October negotiations

### Arall

Why a no-deal Brexit doesn't even bear thinking about – let alone planning for (Panicos O. Demetriades, cyn lywodraethwr Banc Canolog Cyprus, yn The Conversation)

If the UK wants to cut immigration, it must change its model of capitalism (LSE Brexit)

A Fair Brexit for Consumers - Customs Roadmap (British Retail Consortium)

To break Brexit talks deadlock the EU must agree 'sufficient progress' has been made – what does that mean? (The Conversation)

Game theory experts: credibility is key for a successful 'no deal' Brexit strategy (The Conversation)

Brexit – going local – datganoli a llywodraeth leol (UK in a Changing Europe)

Why did Brexit not work for the Conservatives? (Yr Athro John Curtice yn UK in a Changing Europe)

Who voted Labour in 2017? (Yr Athro John Curtice yn NatCen)

Brexit: what the EU and UK still don't agree on (The Conversation)

Queering Brexit (UK in a Changing Europe)

How to underpin a special deal for Northern Ireland (UK in a Changing Europe)

Brexit was not the voice of the working class nor of the uneducated – it was of the squeezed middle (LSE Brexit)

What I teach about Brexit to my (so far distinctly Eurosceptical) students (LSE Brexit)

The Irish border is not a technical issue but a political one (LSE Brexit)

Europeans support the EU's hard line in the Brexit negotiations (LSE Brexit)

Mae ymchwil newydd yn dangos bod rhaniadau dwfn yn parhau ynghylch Brexit (Yr Athro Roger Scully ym mlogiau Brexit a Chymru)

After the Council: What next for the Brexit negotiations? (Seminar gan y Sefydliad Llywodraethu gyda Stefaan DeRynk o Dasglu Erthygl 50 y Comisiwn Europeaidd)

A Better Brexit for Young People (LSE)